09.03.23

Bethan Lloyd
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Noson Lawen yng nghwmni 'Howgets' Dyffryn Ogwen

Bydd rhai o gantorion a cherddorion gorau Dyffryn Ogwen yn cadw cwmni i Gwenno Elis Hodgkins, yr actores amryddawn a chyflwynydd y rhifyn arbennig o **Noson Lawen Dyffryn Ogwen**, ar S4C ar nos Sadwrn, 18 Mawrth, ar S4C.

Ymhlith yr enwau adnabyddus sy'n cadw cwmni iddi mae Bryn Bach, Celt, VRï, Welsh Whisperer a Tammy Jones.

Mae'r rhaglen yn dechrau gyda chân gan ddau sydd â "gwaed y llechan las yn llifo drwy eu gwythiennau", sef Bryn Fôn a Rhys Wyn Parry o'r grŵp Bryn Bach.

Wrth drafod diwylliant cerddorol ardal y chwarel, mae Bryn Fôn yn credu efallai bod "dipyn bach o ramantu" wedi bod am "ffraethineb y caban a'r barddoni a'u bod nhw'n bobl capel."

"Mi oedd 'na rafins ofnadwy hefyd cofia, labrwrs oedd lot ohonyn nhw - doeddan nhw ddim yn mynychu capel, oeddan nhw'n licio mynd ar y botel, felly dw i'n meddwl bod y traddodiad canu ella yn perthyn mwy i'r rafins yna nag i'r chwarelwr diwylliedig!" meddai'r actor, canwr a'r cyfansoddwr.

Cân am Bob Temp, y canwr gwerin ac un o gymeriadau'r ardal, sydd gan Bryn a Rhys. Bu Rhys yn byw gyda'r diweddar Bob am gyfnod "a chael lot o hwyl" ac mae'r gân wedi ei hysgrifennu yn deyrnged iddo fo am y cyfnod hwnnw.

Cerddoriaeth siambr werin gan y triawd VRï sy'n dilyn - grŵp a gafodd ei ffurfio yn 2016 gyda'r nod o gyflwyno cerddoriaeth draddodiadol mewn ffordd wahanol ac unigryw. Mae'r ffidlwr adnabyddus Patrick Rimes yn un o 'Howgets' Pesda ac wedi gwneud ei farc yn y byd cerddorol. Mae'r gantores Beth Celyn yn ymuno â VRï ar gyfer y gân Cob Malltraeth. Yn ddiweddarach yn y rhaglen, mae'r grŵp hefyd yn perfformio'r gân chwerw felys Aberhonddu.

A hithau'n fwyaf adnabyddus am chwarae rhan Carys 'Gurkah' Jones yn **Tipyn o Stad** a dilyniant y gyfres **Stad**, mae Gwenno Elis Hodgkins hefyd yn cael cwmni un o'i chyd-actorion, yr actor, cerddor a'r cyfansoddwr Neil 'Maffia' Williams, sy'n chwarae Neil 'Gurkah' Jones yn y gyfres boblogaidd.

Er ei fod yn adnabyddus fel prif leisydd y grŵp Maffia Mr Huws, perfformio fel unawdydd mae Neil yn y rhaglen. Mae'n canu Darn Ohonof I sydd wedi'i chyfansoddi gan Geth Tomos, sydd hefyd yn cyfeilio ar y piano.

Yn un o saith o blant o Landygai, daeth Tammy Jones i amlygrwydd ar ôl ennill y sioe dalent Opportunity Knocks yn 1975. Mae hi wedi perfformio ar hyd a lled y byd gan rannu llwyfan gyda Tom Jones, The Bachelors, Les Dawson, Morecambe and Wise, Benny Hill a llu o sêr eraill.

"Dw i'n meddwl mai Tom [Jones] oedd y dyn neisia' achos oedd o'n Gymro i ddechrau, a hefyd ei fod o wedi mynd allan o'i ffordd i ddeud helo wrtha'i yn y *dressing room*. Ges i gusan gynno fo! Ond oedd o'n ddyn neis ac yn gyfeillgar ofnadwy. A nes i ddeud wrtho fo byswn i'n dysgu Cymraeg iddo fo - yn rhad ac am ddim!" cofia Tammy Jones wrth hel atgofion am ei gyrfa.

Y Chwarelwr ydy'r gân mae Tammy Jones wedi dewis ei chanu.

Mae artistiaid eraill sy'n perfformio ar y noson yn cynnwys Hogia'r Bonc, a'r brawd a chwaer Gwenno a Gruffudd Beech.

Yn ddiweddglo i'r rhifyn arbennig yma o **Noson Lawen**, mae perfformiad gan Celt, yn canu un o'u caneuon eiconig o'r 90au, Dros Foroedd Gwyllt.

**Noson Lawen Dyffryn Ogwen**
**Nos Sadwrn, 18 Mawrth, S4C, 8.30pm**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Cwmni Da ar gyfer S4C**

09.03.23

Bethan Lloyd
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

**Erthygl i'r Wasg** Press Release

# Ogwen Valley's brightest talent star in a special edition of Noson Lawen

Some of Ogwen Valley's finest singers and musicians will be joining presenter Gwenno Elis Hodgkins for a special edition of **Noson Lawen** on Saturday night, 18 March on S4C.

Among the well-known names who will be keeping her company are Bryn Bach, Celt, VRï, Welsh Whisperer and Tammy Jones.

Kicking off the evening's entertainment is a performance by two musicians who have "blue slate running through their veins" - Bryn Fôn and Rhys Wyn Parry of the group Bryn Bach.

The quarrymen of Ogwen Valley were well-known for their musical and literary culture but Bryn Fôn believes that there may have been "a little bit of romanticising" about them!

"You have to remember there were also some very rough diamonds - a lot of them were labourers, they didn't go to chapel, they liked to hit the bottle, so I think the singing tradition is perhaps related more to them than the cultured quarryman!" said the actor, singer and composer.

Bryn and Rhys will perform a song about Bob Temp, the folk singer and well-known character in the area. The song is a tribute to the late Bob and the fun times he and Rhys enjoyed when they shared a house for a short time.

The trio VRï also bring their own blend of chamber folk music to the stage. The group was formed in 2016 with the aim of presenting traditional Welsh music in a unique way. The well-known fiddler Patrick Rimes was born and bred in Bethesda and has made his mark in the musical world. Singer, writer and poet Beth Celyn joins VRï for a performance of Cob Malltraeth. Later in the programme, the group also perform another song, the bittersweet Aberhonddu (Brecon).

Noson Lawen's presenter Gwenno Elis Hodgkins is a familiar face on S4C and is probably best known for playing the role of Carys Jones in Tipyn o Stad and the follow-on series Stad. She is joined by one of her fellow cast members, the actor, musician and composer Neil 'Maffia' Williams, who plays Neil 'Gurkah' Jones in the popular series.

Although he is most familiar as the lead singer of the group Maffia Mr Huws, Neil performs solo in the programme singing Darn Ohonof I, which was composed by Geth Tomos, who accompanies Neil on the piano.

One of seven children from Llandygai, Tammy Jones rose to fame after winning the talent show Opportunity Knocks in 1975. She has performed all over the world sharing the stage with the likes of Tom Jones, The Bachelors, Les Dawson, Morecambe and Wise, and Benny Hill among others.

"I think that Tom [Jones] was probably the nicest because he was Welsh for a start, and also he went out of his way to come to the dressing room to say hello to me. And I had a kiss from him! He was very nice and friendly. And I told him that I would teach him Welsh - for free!" remembers Tammy Jones when reminiscing about her career.

Tammy performs Y Chwarelwr [The Quarryman], a song that is close to her heart.

The other artists performing on the night include Hogia'r Bonc, and brother and sister Gwenno and Gruffudd Beech.

As the finale to this special edition of **Noson Lawen Dyffryn Ogwen** Celt perform one of their iconic songs from the 90s, Dros Foroedd Gwyllt.

**Noson Lawen Dyffryn Ogwen**

**18 March, S4C, 8.30**

**(English subtitles available)**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Cwmni Da production for S4C**

S4C